| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | **Pwyllgor Craffu Corfforaethol** |
| **Dyddiad** | **Medi 11eg 2014** |
| **Eitem** | **Gwynedd Amdani** |
| **Awdur** | **Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Adnoddau** |
| **Prif faterion sydd angen sylw gan yr Aelodau** | **Bwriad yr eitem craffu yma yw derbyn diweddariad o gynlluniau'r Cyngor i arwain ar drefniant i gaffael ynni yn rhatach ar gyfer cymunedau'r sir, a/neu i hwyluso a hyrwyddo'r cynllun Cyd Cymru â'r buddiannau ynghlwm ag ef i drigolion y sir.** |

**1.0 Cyd-destyn**

Mae'r Cynllun Cyd-brynu Ynni (a drafodir o dan yr enw 'Gwynedd Amdani' gan y Pwyllgor Craffu Corfforaethol) yn rhan o brosiect Cyngor Ni sydd yn rhan o raglen Ffordd Gwynedd – Rheoli'r Galw. Caiff Rhaglen Ffordd Gwynedd – Rheoli'r Galw sylw yn y Cynllun Strategol ym mlaenoriaeth 4, maes Diwylliant a Threfniadau Busnes y Cyngor.

Bwriad "Cyngor Ni" ydi manteisio ar faint y Cyngor er budd i bobl Gwynedd gan wella delwedd y Cyngor ymysg dinasyddion Gwynedd. Mae'r prosiect yn ystyried rhestr hir o syniadau gan ddatblygu unrhyw syniadau sy'n cyrraedd gofynion matrics meini prawf y prosiect.

Mae Cyd-brynu ynni yn un o'r cynlluniau o fewn Prosiect Cyngor Ni.

**2.0 Cynllun Cyd-brynu Ynni**

Yn unol a threfn "Cyngor Ni" ac yn dilyn ystyried achos busnes amlinellol yn trafod syniadau ar sut i hyrwyddo newid cyflenwyr ynni / cyd-brynu ynni daeth grŵp prosiect at ei gilydd ym mis Ionawr 2014 i drafod a chynllunio i hyrwyddo cynllun Cyd Cymru – cynllun cyd brynu ynni ar draws Cymru wedi ei arwain gan Cyngor Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg ac wedi ei weithredu gan yr *Energy Saving Trust*.

Roedd y grŵp prosiect yn cynnwys yr Aelod Cabinet Adnoddau a nifer o swyddogion y Cyngor. Yn dilyn trafod penderfynwyd cael mwy o wybodaeth gan Cyd Cymru ar gyfnod cyntaf y cynllun er mwyn sicrhau bod hwn yn gynllun addas i gyfeirio trigolion Gwynedd tuag ato. Bu'n anodd cael gwybodaeth gan yr ymgyrch, roedd yr hyn a dderbyniwyd yn anfoddhaol ac wedi cymryd peth amser i ddod i'n dwylo.

Nodwyd y canlynol:

- Pryder nad oedd data ar gael ar faint yr arbediad i bob cartref a'r nifer oedd wedi cofrestru
- Pryder bod 5,000 (y nifer wnaeth gymryd rhan ar draws Cymru yn yr rownd gyntaf) yn ymddangos yn nifer fychan yn "switsio" a bydd yn annhebygol bydd cwmnïau ynni yn cynnig arbedion mawr
- Bydd yn anodd iawn bellach i Gyngor Gwynedd lwyddo i arwyddo'r siarter a chynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth o werth oherwydd diffyg amser

Daethpwyd i’r casgliad:

- Oherwydd y pryderon a’r diffyg amser cyn i’r ail rownd gau argymhellwyd beidio cefnogi’r cynllun ar hyn o bryd
- Pan ddaw mwy o ddata ystyried ail edrych ar y cynllun ac ymuno os bydd trydydd rownd

Roedd yn gynamserol i roi gwybodaeth syml am Cyd Cymru a buddion y cynllun ar wefan y Cyngor ynghyd â dolen i’r ffurflen gofrestru oherwydd y pryderon am y cynllun ac heb i’r cynllun dderbyn cefnogaeth y Cyngor.

Gohebwyd gyda Cyd Cymru a darganfod bod cynllun Cyd Cymru yn agored i holl drigolion Cymru felly nid oedd angen ystyried unrhyw gynlluniau eraill ar gyfer cwmpasu holl drigolion Gwynedd.

## 3.0 Datblygiadau Diweddar

Mae Cyd Cymru wedi cyhoeddi bydd trydedd cam a cofrestru yn debygol o agor diwedd 2014 neu yn gynnar yn 2015, er hyn nid oes dyddiadau penodol wedi eu cadarnhau. Mae’r opsiwn i gefnogi Cyd Cymru felly dal yn agored. Rydym hefyd, yn ddiweddar, wedi derbyn ystadegau am y ddau gam cyntaf (gweler isod) a bydd angen ystyried yr ystadegau hyn a phenderfynu os byddwn yn cefnogi’r drydedd cam.

| **Cam** | **Dyddiadau Cofrestru** | **Nifer o gartrefi yn cofrestru** | **Dyddiadau ‘switsio’** | **Nifer o gartrefi yn ‘switsio’** | **Arbediad blynyddol cartref ar gyfartaledd** |
|---|---|---|---|---|---|
| **1** | 21/10/13-13/1/14 | 5,373 | 13/1/14-24/1/14 | 861 | |
| **2** | 27/1/14-9/3/14 | 1,963 | 10/3/14-31/3/14 | 674 | |
| **Cyfanswm** | | 6,802 | | | £185 |

## 4.0 Lleihau costau ynni’r Cyngor

Mae Cynllun Rheoli Carbon Cyngor Gwynedd wedi bod yn gweithredu ers peth amser ac bellach wedi gweld lleihad o dros 30% mewn allyriadau carbon o adeiladau’r Cyngor o gymharu gyda 2005/06. Mae hyn yn arbediad o oddeutu £600,000 y flwyddyn mewn biliau ynni. Ynghyd a hyn mae’r Cyngor yn rhan o grŵp rhanbarthol sy’n cyd-brynu ynni er mwyn sicrhau’r pris rhataf bosib ar y biliau.